Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Niwsans statudol

## Papur briffio

Ionawr 2022



ymchwil.senedd.cymru/

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru/**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6574**
E-bost: **Lorna.Scurlock@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2022**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Niwsans statudol

## Papur briffio

Ionawr 2022

**Golygyddion:**
Will Skinner a Lorna Scurlock

Mae Ymchwil y Senedd yn cydnabod y gymrodoriaeth seneddol a roddwyd i Will Skinner gan y Cyngor Ymchwil Peirianneg a Gwyddorau Ffisegol, a alluogodd i'r Papur briffio hon gael ei chwblhau.

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad** ..... **1**

Dod o hyd i ddatrysiadau ..... 1

**2. Niwsans statudol** ..... **2**

Pryd nad yw niwsans yn niwsans statudol? ..... 3

Ble gall niwsans statudol ddigwydd? ..... 3

**3. Rôl awdurdodau lleol** ..... **4**

Cyflwyno hysbysiad atal ..... 4

Mae methu â chydymffurfio â hysbysiad atal yn drosedd ..... 5

Yr amddiffyniad 'dull ymarferol gorau' ..... 6

Datrys y niwsans ac adennill costau ..... 7

Cwynion yn erbyn awdurdodau lleol ..... 7

**4. Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol** ..... **8**

Erlyn o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd neu Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol? ..... 8

**5. Gweithredu preifat** ..... **9**

**6. Niwsans statudol a deddfwriaeth berthnasol arall ........... 10**

Cyflwr safle ........ 10

Mwg ........ 10

Arogleuon ........ 11

Sbwriel a chrynhoad gwastraff ........ 11

Sŵn ........ 12

# 1. Cyflwyniad

Sŵn, golau, arogleuon a mwg. Gall yr holl bethau hyn fod yn annifyr neu'n anghyfleus, ond os yw'n effeithio'n andwyol ar fwynhad o eiddo neu os oes perygl i iechyd, gallai fod yn 'niwsans statudol'. Gall y rhain, a ffynonellau eraill o niwsans, gael eu hachosi gan weithredoedd, neu ddiffyg gweithredoedd, cymdogion, busnesau, landlordiaid ac eraill.

Mae niwsans statudol yn faterion penodol a nodir yn **Neddf Diogelu'r Amgylchedd 1990** (y Ddeddf) a byddwn yn trafod hynny yn y papur briffio hwn.

Mae'r Ddeddf yn darparu modd i awdurdodau lleol ymchwilio i gwynion a phenderfynu a yw niwsans statudol yn digwydd. Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar awdurdod lleol i archwilio ei ardal, ymchwilio i gwynion am niwsans statudol sy'n cael eu gwneud gan bobl sy'n byw yn ei ardal, a chymryd camau i geisio datrys niwsans statudol.

Mewn rhai amgylchiadau, mae'r swyddogaethau a roddir neu a osodir gan y Ddeddf mewn perthynas â niwsans statudol yn gorwedd gydag awdurdodau iechyd porthladdoedd. Yn y papur briffio hwn, gallai cyfeiriadau at awdurdodau lleol gynnwys awdurdodau iechyd porthladdoedd lle maent yn gyfrifol am y swyddogaethau perthnasol.

## Dod o hyd i ddatrysiadau

Gallai fod yn gyflymach ac yn fwy boddhaol i ddod o hyd i ddatrysiadau heb gynnwys awdurdodau lleol na chymryd camau cyfreithiol. Mae canllawiau Llywodraeth y DU ar ddatrys **anghydfod rhwng cymdogion** yn rhoi amryw o awgrymiadau i helpu pobl i drafod problemau gyda'u cymdogion. Mae'n awgrymu:

- mynd atyn nhw, neu ysgrifennu llythyr atynt, yn esbonio'r broblem yn glir a chadw at y ffeithiau;
- trafod y broblem gyda chymdogion sydd hefyd yn cael eu heffeithio a gwneud cwyn i'r rhai sy'n gyfrifol fel grŵp; neu
- drafod y **broblem gyda'r landlord** os yw tenantiaid yn achosi problem.

# 2. Niwsans statudol

Nid oes diffiniad cyfreithiol o niwsans statudol. Mae niwsans statudol yn bodoli mewn perthynas â mater sy'n:

- ymyrryd yn '**afresymol a sylweddol**' â defnydd neu fwynhad o gartref neu fangre arall; neu
- sy'n 'niweidiol i iechyd', neu'n debygol o fod, sydd wedi'i farnu gan y llysoedd i olygu bygythiad i iechyd gan afiechyd, fermin ac ati ac **nid anaf corfforol.**

I fod yn niwsans statudol, rhaid i'r gweithgaredd fod yn barhaus neu'n cael ei ailadrodd; nid yw digwyddiadau unigol fel arfer yn cael eu hystyried yn niwsans.

Mae'r **Ddeddf** yn nodi'r canlynol fel niwsans statudol:

- **a.** unrhyw fangre sydd mewn y fath gyflwr a fyddai'n niweidiol i iechyd neu'n niwsans;
- **b.** mwg sy'n cael ei allyrru o fangre fel ei fod yn niweidiol i iechyd neu'n niwsans;
- **c.** mygdarth neu nwyon sy'n cael eu hallyrru o fangre fel eu bod yn niweidiol i iechyd neu'n niwsans;
- **d.** unrhyw lwch, ager, arogl, neu all-lifoedd arall sy'n codi o fangre ddiwydiannol, masnachol neu fusnes ac sy'n niweidiol i iechyd neu'n niwsans;
- **e.** unrhyw groniad neu ddyddodiad sy'n niweidiol i iechyd neu'n niwsans;
- **f.** unrhyw anifail a gedwir mewn lle neu fodd sy'n niweidiol i iechyd neu'n niwsans;
- **fa.** unrhyw bryfed sy'n deillio o fangre ddiwydiannol, masnachol neu fusnes perthnasol ac sy'n niweidiol i iechyd neu'n niwsans;
- **fb.** golau artiffisial sy'n cael ei allyrru o fangre fel ei fod yn niweidiol i iechyd neu'n niwsans;
- **g.** sŵn sy'n cael ei allyrru o fangre fel ei fod yn niweidiol i iechyd neu'n niwsans;
- **ga.** sŵn sy'n niweidiol i iechyd neu'n niwsans ac sy'n cael ei allyrru o gerbyd, peirianwaith neu offer mewn stryd neu a achosir ganddo; neu
- **h.** unrhyw fater arall sy'n cael ei ddatgan mewn unrhyw ddeddfiad ei fod yn niwsans statudol.

Nid yw'r niwsans statudol ei hun yn drosedd. Fodd bynnag, mae methu â chymryd camau i ddatrys y niwsans pan ofynnir i wneud hynny yn drosedd.

## Pryd nad yw niwsans yn niwsans statudol?

Gall rhai gweithgareddau neu amgylchiadau fod yn annifyr neu'n anghyfleus, ond nid ydynt yn niwsans statudol o dan y **Ddeddf**. Mae rhai o'r rhain yn cynnwys:

- tir sydd mewn 'cyflwr halogedig';
- mwg, golau artiffisial neu sŵn sy'n cael eu hallyrru o fangre a feddiennir ar ran y Goron at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr;
- mwg a allyrrir o simnai anheddau preifat o fewn ardal rheoli mwg;
- mwg tywyll a allyrrir o safleoedd diwydiannol neu fasnachol;
- mygdarth neu nwyon a ollyngir o fangre ac eithrio anheddau preifat;
- golau artiffisial a allyrrir o feysydd awyr, harbyrau, rheilffyrdd, carchardai, canolfannau cludo nwyddau a goleudai;
- mwg neu ager a allyrrir o injan stêm locomotif rheilffordd; neu
- sŵn o awyrennau (ac eithrio awyrennau model), traffig neu wrthdystiadau gwleidyddol.

## Ble gall niwsans statudol ddigwydd?

Dim ond mewn rhai mathau o eiddo y gall rhai niwsans statudol ddigwydd neu ddeillio ohonynt. Yn dibynnu ar y niwsans penodol, gallant ddigwydd mewn **unrhyw safle neu safle diwydiannol, masnachol neu fusnes** neu ddeillio ohonynt.

Gallai hyn gynnwys holl dir, gan gynnwys tai yn y sector preifat a chyhoeddus, y rhan fwyaf o longau, a mangreoedd a ddefnyddir at ddibenion diwydiannol, masnachol neu fusnes.

Mae 'mangreoedd diwydiannol, masnachol neu fusnes' yn golygu mangreoedd:

a. a ddefnyddir at unrhyw ddibenion diwydiannol, masnachol neu fusnes;
b. mangre lle mae mater yn cael ei losgi mewn cysylltiad ag unrhyw broses ddiwydiannol, masnachol neu fusnes; neu
c. mangre a ddefnyddir at ddibenion unrhyw driniaeth neu broses yn ogystal â lle y cânt eu defnyddio at ddibenion gweithgynhyrchu.

Mewn rhai amgylchiadau, mae 'mangreoedd diwydiannol, masnachol neu fusnes perthnasol' wedi'u heithrio o gwmpas y drefn niwsans statudol. Yn y cyd-destun hwn, nid yw 'mangreoedd diwydiannol, masnachol neu fusnes perthnasol' yn cynnwys:

- **a.** tir a ddefnyddir fel tir âr, tir pori, dolydd neu dir pori;
- **b.** tir a ddefnyddir fel tir helyg gwiail, gwelyau cyrs neu goetir;
- **c.** tir a ddefnyddir ar gyfer gerddi marchnad, tiroedd meithrinfa neu berllannau;
- **d.** tir sy'n ffurfio rhan o uned amaethyddol, nad yw'n dir sy'n dod o fewn unrhyw un o baragraffau (a) i (c), pan fo'r tir o ddisgrifiad a ragnodir gan reoliadau a wneir gan y person priodol; a
- **e.** tir sydd wedi'i gynnwys mewn safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig (fel y'i diffinnir yn adran 52(1) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981).

# 3. Rôl awdurdodau lleol

Rhaid i awdurdod lleol arolygu ei ardal ar gyfer niwsans statudol **o bryd i'w gilydd**'. Os codir cwyn niwsans gan berson yn ei ardal, rhaid i'r awdurdod lleol gymryd pa bynnag gamau sy'n 'rhesymol ymarferol' i ymchwilio i'r gŵyn. Gall hyn gynnwys **swyddog awdurdod lleol** yn mynd i'r eiddo dan sylw.

Lle mae awdurdod lleol yn ystyried bod niwsans statudol yn bodoli, neu'n debygol o ddigwydd neu ailddigwydd, mae'n **rhwymedig yn gyfreithiol i weithredu** drwy gyflwyno hysbysiad atal.

Gall niwsans statudol darddu y tu allan i ardal yr awdurdod lleol. O dan yr amgylchiadau hyn gall yr awdurdod lleol fwrw ymlaen fel pe bai'r 'gweithred neu ddiffyg' sy'n achosi'r niwsans yn digwydd **y tu mewn i'w ardal**.

## Cyflwyno hysbysiad atal

Pan fo'r awdurdod lleol yn fodlon bod niwsans statudol yn bodoli, neu'n debygol o ddigwydd neu ailddigwydd, bydd yn cyflwyno **hysbysiad atal** ar y person cyfrifol.

Yn achos niwsans statudol sy'n deillio o sŵn sy'n cael ei allyrru o eiddo ac a fyddai'n niweidiol i iechyd neu'n niwsans, gellir cyflwyno hysbysiad ar unwaith, neu gall yr awdurdod lleol eu 'perswadio' yn anffurfiol i leihau'r niwsans. Pan fo perswâd anffurfiol yn aneffeithiol, rhaid cyflwyno hysbysiad atal. Bydd y perswâd anffurfiol yn aneffeithiol pan fo'r awdurdod lleol yn fodlon:

- **a.** ar unrhyw adeg cyn diwedd y cyfnod perthnasol na fydd y camau a gymerwyd yn llwyddiannus i berswadio'r person i leihau'r niwsans neu i wahardd neu i gyfyngu ar y niwsans rhag digwydd neu rhag ailddigwydd; neu
- **b.** ar ddiwedd y cyfnod perthnasol pan fo'r niwsans yn parhau i fodoli, neu'n parhau i fod yn debygol o ddigwydd neu ailddigwydd.

At y dibenion hyn, ystyr 'cyfnod perthnasol' yw'r cyfnod o saith diwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod yr oedd yr awdurdod lleol yn fodlon gyntaf bod y niwsans yn bodoli, neu'n debygol o ddigwydd neu ailddigwydd.

Unwaith y cyflwynir hysbysiad atal, rhaid i'r sawl y cyflwynir yr hysbysiad iddo leihau/dileu'r niwsans neu wahardd neu gyfyngu arno i ddigwydd neu ailddigwydd.

Bydd yr hysbysiad yn:

- pennu o fewn pa amser neu amserau rhaid cydymffurfio â gofynion yr hysbysiad; a
- rhoi gwybodaeth glir fel bod y person cyfrifol yn gallu adnabod y niwsans a'r gwaith sydd **ei angen i ddatrys y niwsans.**

Fodd bynnag, nid oes angen i'r hysbysiad nodi'r union **waith sydd ei angen i leihau'r** niwsans. Rhaid ei gyflwyno i:

- berchennog y safle os yw'r niwsans yn deillio o ddiffyg strwythurol;
- perchennog neu feddiannydd y fangre os na ellir dod o hyd i'r person sy'n gyfrifol am y niwsans neu os nad yw'r niwsans wedi digwydd eto; neu
- fel arall, y person sy'n gyfrifol am y niwsans.

Gall **mwy nag un person** fod yn gyfrifol am niwsans statudol. Gellir cyflwyno hysbysiad atal i bob un o'r bobl hynny, p'un a yw eu gweithredoedd unigol yn gyfystyr â niwsans ai peidio.

Gellir gosod hysbysiad atal ar **gerbydau, peiriannau, neu offer** heb oruchwyliaeth os yw'r sŵn y maent yn ei ollwng yn achosi niwsans statudol ac nad oes modd dod o hyd i'r person sy'n gyfrifol am y cerbyd, y peiriannau neu'r offer.

## Mae methu â chydymffurfio â hysbysiad atal yn drosedd

Oni bai bod gan y sawl sy'n cael hysbysiad '**esgus rhesymol**', bydd y person yn euog o drosedd os yw'n mynd yn groes i unrhyw ofyniad neu waharddiad a osodir gan hysbysiad neu'n methu â chydymffurfio ag ef. Os cânt yn euog o'r drosedd, gallant wynebu uchafswm dirwy, gyda dirwy ychwanegol am bob diwrnod y bydd y drosedd yn parhau ar ôl yr euogfarn.

Os yw'r person wedi cyflawni'r drosedd ar safle diwydiannol, masnachol neu fusnes, maent yn wynebu **euogfarn ddiannod** o 'ddirwy' yn unig.

Gall person sy'n cael hysbysiad atal **apelio i'r Llys Ynadon** o fewn 21 diwrnod i

gyflwyno'r hysbysiad. Pan gyflwynir yr hysbysiad atal gan awdurdod lleol mewn perthynas â niwsans sy'n codi y tu allan i'w ardal, bydd y Llys Ynadon yn gwrando ar apêl ag awdurdodaeth lle digwyddodd y weithred neu ddiffyg honedig.

## Yr amddiffyniad 'dull ymarferol gorau'

Mewn rhai amgylchiadau, bydd gan berson amddiffyniad os gall brofi ei fod wedi defnyddio'r '**dulliau ymarferol gorau**' i atal, neu wrthweithio effeithiau, y niwsans.

Nid yw'r amddiffyniad ar gael yn yr achosion canlynol:

- **a.** niwsans penodol (sef (a) mangre yn y fath gyflwr; (d) llwch, ager, arogl, neu all-lifoedd arall; (e), croniad neu ddynodiad; (f), anifail a gedwir mewn lle neu fodd o'r fath (fa), pryfed sy'n dod o fangre a (g) sŵn sy'n cael ei allyrru o fangre), ac eithrio pan fo'r niwsans yn dod o safleoedd diwydiannol, masnachol neu fusnes;
- **aza.** golau artiffisial sy'n cael ei allyrru o fangre, ac eithrio pan fydd yn cael ei allyrru o fangre ddiwydiannol, masnachol neu fusnes, neu wedi'i allyrru gan oleuadau a ddefnyddir at y diben o oleuo cyfleuster chwaraeon perthnasol awyr agored yn unig;
- **aa.** sŵn sy'n cael ei allyrru neu ei achosi gan gerbyd, peiriannau neu offer mewn stryd, ac eithrio pan fo'r sŵn yn cael ei allyrru neu ei achosi gan gerbyd, peiriannau neu offer sy'n cael eu defnyddio at ddibenion diwydiannol, masnachol neu fusnes;
- **b.** mwg sy'n cael ei allyrru o fangre, ac eithrio pan fo'r mwg yn cael ei ollwng o simnai; a
- **c.** mygdarthau neu nwyon o fangre neu unrhyw fater arall y datganwyd gan ddeddfiad arall ei fod yn niwsans statudol.

Mae **ymarferol** yn golygu 'yn rhesymol ymarferol' o ran amodau ac amgylchiadau lleol, cyflwr presennol gwybodaeth dechnegol a goblygiadau ariannol.

Mae'r 'dulliau' yn cyfeirio at ddyluniad, gosod, cynnal a chadw a dull gweithredu offer a pheiriannau a'r cyfnodau o weithredu, a dylunio, adeiladu a chynnal a chadw adeiladau a strwythurau.

Yn achos sŵn sy'n dod o dafarn, gallai'r amddiffyniad hwn gynnwys dangos bod mesurau lliniaru sŵn yn eu lle. Er enghraifft, **ffenestri gwydr dwbl a chyfyngiadau** ar nifer y cwsmeriaid a ganiateir mewn rhannau penodol o'r sefydliad.

Mae'r amddiffyniad hwn ond yn berthnasol os yw'n cyd-fynd â gofynion diogelwch ac unrhyw ddyletswydd a osodir gan y gyfraith.

Mae amddiffyniad ar wahân hefyd ar gael mewn perthynas â niwsans statudol sy'n deillio o sŵn a allyrrir o eiddo neu sŵn sy'n cael ei allyrru neu ei achosi gan gerbyd, peiriannau neu offer mewn stryd. Amlinellir hyn yn **80(9) o'r Ddeddf**.

## Datrys y niwsans ac adennill costau

Os **na chydymffurfir** â'r hysbysiad atal, gall yr awdurdod lleol ddatrys y niwsans ei hun, drwy wneud 'beth bynnag a allai fod yn angenrheidiol'.

Gall wneud hyn p'un a yw'n erlyn y drosedd ai peidio. Gall adennill 'treuliau yr eir iddynt yn rhesymol' tra'n lleihau neu atal niwsans rhag digwydd eto, oddi wrth y person, neu'r bobl, sy'n gyfrifol.

## Cwynion yn erbyn awdurdodau lleol

Mewn rhai achosion, efallai y bydd yr achwynydd yn teimlo nad aeth yr awdurdod lleol i'r afael â'i bryderon yn ddigonol. O dan yr amgylchiadau hyn, dylid cyflwyno cwyn ffurfiol i broses gwyno'r awdurdod lleol.

Ar ôl i gŵyn gael ei chyflwyno i'r awdurdod lleol, gellir cyflwyno cwyn i **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**. Mae gan yr Ombwdsmon bwerau i ymchwilio i gwynion am wasanaethau cyhoeddus, mae'n annibynnol ac yn rhad ac am ddim. Gellir cyflwyno cwyn os:

- nad yw'r awdurdod lleol yn darparu ymateb boddhaol i'r gŵyn ffurfiol **o fewn 12 wythnos**; neu
- mae'r achwynydd yn parhau i fod yn anfodlon ar ôl cwblhau gweithdrefn gwyno'r awdurdod lleol.

Mae canllawiau'r Ombwdsmon i **gwyno am gorff cyhoeddus** yn amlygu y gellir gwneud eithriadau pan fo cwyn yn un brys ac yn peri risg uniongyrchol i ddiogelwch.

# 4. Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol

Mae gweithgareddau sydd â'r potensial i niweidio'r amgylchedd ac iechyd dynol a gyflawnir mewn cyfleusterau rheoleiddiedig yn cael eu rheoleiddio drwy **Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2016** (y Rheoliadau). **Maent yn ei gwneud yn ofynnol**:

> operators of "regulated facilities" to obtain a permit or to register some activities, which would otherwise require permits, as "exempt facilities".

Gall **trwyddedau ac esemptiadau amgylcheddol** ar gyfer cyfleusterau rheoleiddiedig gynnwys **amodau penodol sy'n mynd i'r afael â niwsans statudol posibl**, er enghraifft, mwg neu sŵn sy'n cael eu hallyrru o fangre.

Mae hyn yn caniatáu i'r **rheoleiddiwr gymryd camau gorfodi** os caiff yr amodau hyn eu torri.

## Erlyn o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd neu Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol?

O dan y Ddeddf, gall awdurdod lleol gyflwyno hysbysiad atal i gyfleuster a reoleiddir sy'n achosi niwsans statudol. Fodd bynnag, oherwydd bod gorgyffwrdd rhwng y Ddeddf a'r Rheoliadau, rhaid i awdurdodau lleol **ofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru** cyn dwyn achos ar gyfer y niwsans statudol a ganlyn:

- **b.** mwg sy'n cael ei allyrru o fangre fel ei fod yn niweidiol i iechyd neu'n niwsans;
- **d.** unrhyw lwch, ager, arogl, neu all-lifoedd arall sy'n codi o fangre ddiwydiannol, masnachol neu fusnes ac sy'n niweidiol i iechyd neu'n niwsans;
- **e.** unrhyw groniad neu ddyddodiad sy'n niweidiol i iechyd neu'n niwsans;
- **fb.** golau artiffisial sy'n cael ei allyrru o fangre fel ei fod yn niweidiol i iechyd neu'n niwsans;
- **g.** sŵn sy'n cael ei allyrru o fangre fel ei fod yn niweidiol i iechyd neu'n niwsans;

Mae hyn yn atal gweithredwyr rhag wynebu dau erlyniad ar wahân dros yr un digwyddiad.

# 5. Gweithredu preifat

Gall person sy'n cael ei dramgwyddo gan niwsans statudol **gymryd camau preifat yn y Llys Ynadon**. Efallai y bydd person yn dymuno gwneud hyn os:

- nad yw'r awdurdod lleol wedi ymchwilio neu ei fod wedi canfod nad oes unrhyw niwsans; neu
- yr awdurdod lleol yw testun y gŵyn.

Os yw'r Llys Ynadon yn fodlon bod niwsans yn bodoli, neu'n debygol o ailddigwydd, bydd yn gwneud gorchymyn sy'n:

a. ei gwneud yn ofynnol i'r diffynnydd atal y niwsans, o fewn amser a bennir yn y gorchymyn, a gwneud unrhyw waith sy'n angenrheidiol at y diben hwnnw; a/neu
b. gwahardd y niwsans rhag digwydd eto, a'i gwneud yn ofynnol i'r diffynnydd, o fewn amser a bennir yn y gorchymyn, wneud unrhyw waith sy'n angenrheidiol i atal hyn rhag digwydd eto;

Gall y Llys hefyd osod dirwy i'r diffynnydd.

Gall y Llys Ynadon fod yn fodlon bod y niwsans honedig yn bodoli a datgan bod yr eiddo'n anaddas i bobl fyw ynddo. O dan yr amgylchiadau hyn, gall y Llys wahardd defnyddio'r safle i bobl fyw ynddo nes bod y safle, i foddhad y Llys, yn cael ei wneud yn addas.

Yn yr un modd â hysbysiad atal a roddir gan awdurdod lleol, mae person sy'n torri unrhyw ofyniad neu waharddiad a osodir gan orchymyn yn euog o drosedd. Gall y person hwnnw ddibynnu ar amddiffyniad y defnyddiwyd y dulliau ymarferol gorau i atal, neu i wrthweithio effeithiau, y niwsans.

# 6. Niwsans statudol a deddfwriaeth berthnasol arall

Nid y Deddf yw'r unig gyfraith sydd ar gael i fynd i'r afael â niwsans. Mae'r adran hon yn edrych ar rai mathau o niwsans statudol ac yn amlygu deddfwriaeth a rheoliadau amgen.

## Cyflwr safle

Nid yw 'cyflwr' safle yn unig yn niwsans, ond gall effaith cyflwr safle **achosi'r niwsans**.

Mae safle sy'n niweidiol i iechyd yn peri risg o afiechyd neu salwch. Fel y nodwyd yn flaenorol, nid yw'r Ddeddf yn amddiffyn rhag y perygl o **anaf corfforol**.

**Dywed Cyngor ar Bopeth** i denantiaid mewn llety rhent preifat a thenantiaid cymdeithasau tai, gall methiant landlord i wneud gwaith atgyweirio, fel bod 'y safle mewn cyflwr sy'n niweidiol i iechyd', fod yn gyfystyr â niwsans statudol.

Mae niwsans sy'n deillio o gyflwr gardd cymydog, er enghraifft yn sgil gwrychoedd uchel neu goed sy'n hongian drosodd, wedi'u cwmpasu gan ddeddfwriaeth arall, fel **Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003** . Mae Ymchwil y Senedd wedi cyhoeddi papur briffio ar wahân ar **goed a gwrychoedd niwsans**.

## Mwg

Mae'r Ddeddf yn cynnwys huddygl, lludw, graean, a gronynnau graeanog sy'n cael eu hallyrru â mwg yn ei diffiniad o fwg.

**Un ffynhonnell gyffredin o niwsans mwg yw coelcerthi domestig**. **Nid oes unrhyw gyfreithiau yn erbyn coelcerthi**, ond mae cyfreithiau yn erbyn unrhyw niwsans y maent yn ei achosi. Rhaid i'r goelcerth ddigwydd yn aml er mwyn ei thrin fel niwsans statudol.

Mae rhai mathau o niwsans mwg wedi'u cynnwys mewn deddfwriaeth arall:

- Mae **Deddf Priffyrdd 1980** yn gosod cyfyngiadau ar danau sy'n allyrru mwg ger ffyrdd; ac
- mae **Deddf Aer Glân 1993** yn rheoleiddio mwg sy'n cael ei allyrru o simnai annedd breifat o fewn ardal rheoli mwg; mwg tywyll a allyrrir o simnai adeilad

neu ffwrnais boeler sefydlog/peiriant diwydiannol; a mwg tywyll sy'n cael ei ollwng o safle diwydiannol neu fasnachol, neu ddeunydd llosgi sy'n gysylltiedig â phroses ddiwydiannol neu fasnach ar eiddo domestig.

## Arogleuon

Mae **ceginau masnachol a phrosesau diwydiannol** yn ffynonellau cyffredin o arogleuon niwsans ac all-lifoedd. Mae arogl yn oddrychol, ac fel arfer mae cynghorau yn defnyddio o leiaf ddau '**synhwyrydd' dynol** i arogli a phenderfynu ar gryfder, amlder a pha mor atgas yw arogleuon.

Mae'r **Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir** (SRS), cydweithrediad rhwng cynghorau Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, a Bro Morgannwg, yn nodi yn ei **ganllawiau niwsans statudol** bod:

> Nid oes lefelau penodol na dyfeisiau mesur i ganfod arogl.

Mae SRS yn dibynnu ar y wybodaeth a ddarperir gan yr hawlydd i gynorthwyo â'r ymchwiliad. Mae'n cynghori achwynwyr i gadw nodiadau ynghylch pryd mae'r niwsans ar ei waethaf.

Rhaid i'r arogl fod o natur anarferol yn yr ardal. Nid yw arogleuon amaethyddol mewn lleoliad gwledig yn **cael ei ystyried yn niwsans** oni bai eu bod yn ormodol.

Nid yw arogl ac all-lifoedd o eiddo preswyl yn gyfystyr â niwsans statudol.

Rhaid i gyfleusterau a reoleiddir gan y Rheoliadau sicrhau eu bod yn **lleihau neu atal** llygredd arogl. Gall awdurdodau lleol ymdrin ag arogleuon sy'n dod o fangreoedd budr neu bla fermin o dan **Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936**.

## Sbwriel a chrynhoad gwastraff

Gall pentwr o sbwriel neu wastraff gael ei **ystyried yn niwsans statudol os yw'n**:

> … sylweddol ac yn fygythiol i iechyd, fel denu plâu.

Nid yw gwastraff anadweithiol, er enghraifft brics, gwydr neu ddeunydd adeiladu **yn cael ei ystyried yn niwsans statudol**.

Mae croniadau niwsans a dyddodion sbwriel hefyd wedi'u cynnwys mewn adrannau eraill o'r Ddeddf a deddfwriaeth arall:

- mae dyddodion gwastraff rheoledig heb awdurdod, **sy'n cael ei alw yn tipio anghyfreithlon**, yn drosedd o dan **Adran 33 o'r Ddeddf**;

- gellir mynd i'r afael â thipio anghyfreithlon ar raddfa fach o dan Adran 33ZB o'r Ddeddf (a fewnosodwyd gan **Reoliadau Dyddodi Gwastraff Heb Awdurdod (Cosbau Penodedig) (Cymru) 2017**);
- gall aelwydydd domestig nad ydynt yn **trosglwyddo eu gwastraff** i 'berson awdurdodedig' gael hysbysiad cosb benodedig o dan Adran 34ZB o'r Ddeddf (a fewnosodwyd gan **Reoliadau Dyletswydd Gofal o ran Gwastraff Cartref (Cosbau Penodedig) (Cymru) 2019**);
- os yw tir mewn 'cyflwr a fyddai'n effeithio'n andwyol ar amwynder y gymdogaeth' gall yr awdurdod cynllunio lleol gyflwyno hysbysiad i'r perchnogion neu'r deiliaid o dan **Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990**; a
- lle mae niwsans sbwriel yn effeithio'n negyddol ar '**ansawdd bywyd y gymuned**', gellir cyhoeddi hysbysiad diogelu cymunedol o dan **Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Phlismona 2014**.

## Sŵn

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi **Cyngor ar Sŵn**, sy'n rhoi canllawiau ar fynd i'r afael â phroblemau sŵn. Mae'n nodi:

> Does dim rheol ynghylch faint o sŵn sy'n creu niwsans statudol.

Rhaid i swyddog awdurdod lleol benderfynu a yw'r gyfraith yn cael ei thorri ym mhob amgylchiad unigol.

Mae Cyngor ar Sŵn yn cwmpasu deddfwriaeth a rheolaethau sŵn, gan gynnwys:

- pŵer awdurdodau lleol i greu is-ddeddfau i reoli mathau penodol o sŵn mewn strydoedd neu eiddo awdurdodau lleol;
- pŵer awdurdodau lleol, o dan **Ddeddf Rheoli Llygredd 1974**, i nodi sut y cynhelir gwaith adeiladu i leihau'r aflonyddwch sŵn;
- cyfyngiadau ar ddefnyddio uchelseinydd yn y stryd o dan **Ddeddf Rheoli Llygredd 1974;**
- y rheolaethau sŵn sydd ar gael gan **Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014**; a
- throseddau sŵn yn y nos o dan **Ddeddf Sŵn 1996**.

Mae tân gwyllt yn ffynhonnell gyffredin o gwynion am sŵn. Gall natur fyrhoedlog y sŵn ei gwneud yn heriol i awdurdodau benderfynu a oes niwsans statudol yn digwydd. Mae Ymchwil y Senedd wedi cyhoeddi erthygl yn manylu ar y **ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â thân gwyllt**.

Mae **polisi cynllunio Cymru** yn cynnwys yr egwyddor 'asiant dros newid', sy'n datgan mai'r:

> busnes neu'r person sy'n gyfrifol am gyflwyno newid sy'n gyfrifol am reoli'r newid hwnnw.

Yn **ymarferol, mae hyn yn golygu**:

> ei bod yn ofynnol i ddatblygwr adeilad preswyl newydd ger lleoliad cerddoriaeth fyw bresennol gynnwys camau lliniaru sŵn yn rhan o'r datblygiad newydd.